Department
for Environment,
Food & Rural Affairs

# Cytundeb Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE

## Galwad am Wybodaeth

Mawrth 2026

Ni sy’n gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd. Ein nod yw tyfu economi werdd a chynnal cymunedau gwledig ffyniannus. Rydyn ni hefyd yn cefnogi’n diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sy'n arwain y byd.

Mae Defra yn adran â gweinidog, gyda chymorth 34 o asiantaethau a chyrff cyhoeddus.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae’r wybodaeth yma wedi’i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded yma, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Lle rydyn ni wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad yma ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad yma gael eu hanfon aton ni yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig - GOV.UK.

# Cynnwys


Galwad am Wybodaeth....1

Cynnwys....3

Cefndir....4

- Cynulleidfa....5
- Hyd....5

Defnyddio a rhannu’ch gwybodaeth....6

- Gwybodaeth Arall....6
- Ymateb i'r Alwad am Wybodaeth....6
- Cyfrinachedd....7

**Amdanoch chi**....7

Gwybodaeth Gefndir....8

Effaith Weithredol....13

Ymwybyddiaeth a Pharodrwydd Busnes....15

Manteision a Chostau....19

Effeithiau ar y Gadwyn Gyflenwi ac Effeithiau Rhanbarthol....23

Adborth ar yr Arolwg Ar-lein....24

# Cefndir

Ar 19 Mai 2025, cytunodd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd (UE) i fynd ar drywydd cytundeb Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) newydd. Bydd hyn, ynghyd â Fframwaith Windsor, yn ei gwneud hi'n haws, yn rhatach ac yn fwy rhagweladwy i nwyddau symud nid yn unig rhwng y Deyrnas Unedig a'r UE, ond hefyd o fewn y Deyrnas Unedig ei hun, gan gynnwys symud yn llyfn o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon.

Mae'r cytundeb yma yn ymdrin â masnachu, cynhyrchu a symud planhigion, anifeiliaid a'u cynhyrchion; diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid; meysydd sy'n gysylltiedig â maeth fel atchwanegiadau bwyd, bwydydd wedi'u cyfnerthu, bwyd ar gyfer grwpiau penodol, hawliadau maeth ac iechyd, a labelu maeth; rheolau bwyd-amaeth ehangach sy'n ymwneud â labelu bwyd, nwyddau organig, safonau marchnata bwyd-amaeth allweddol a safonau cyfansoddiad; yn ogystal â rheoleiddio plaladdwyr a bioladdwyr.

Bydd y newidiadau yma yn rhoi manteision ymarferol i fusnesau a defnyddwyr:

- **Bydd busnesau'n arbed arian**. Bydd y rhaid sy'n masnachu â'r UE, mawr a bach, ar eu hennill am fod llai o arian yn cael ei wario ar waith papur cymhleth ar y ffin. Erbyn hyn fydd dim angen Tystysgrifau Iechyd Allforio, a all gostio hyd at £200 y llwyth. Bydd gwiriadau arferol ar y ffin gan Awdurdodau Iechyd Porthladd sy'n gymwys ar hyn o bryd i fewnforion llaeth, pysgod, wyau a chig coch yn cael eu dileu, gan leihau ffioedd a'r costau sy'n gysylltiedig â chiwio a lleihau'r risg y bydd nwyddau'n cael eu difetha.
- **Bydd masnach yn llifo'n gyflymach**. Bydd cynnyrch ffres yn cyrraedd silffoedd archfarchnadoedd yn gyflymach. Bydd cadwyni cyflenwi'n dod yn fwy gwydn, gan gryfhau diogelwch bwyd yma ac yn Ewrop. Ac am y tro cyntaf ers Brexit, bydd nwyddau'n symud yn rhydd rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.
- **Bydd marchnadoedd newydd yn cael eu datgloi**. Bydd y fasnach mewn cynhyrchion fel selsig a byrgyrs ffres, rhai mathau o bysgod cregyn a thatws hadyd yn ailddechrau, gan agor marchnad yr UE i'r nwyddau yma a helpu busnesau Prydain i ehangu eu cynhyrchiant. Bydd gan ddefnyddwyr ar ddwy ochr y Sianel fwy o fynediad i'r cynhyrchion o ansawdd uchel y maen nhw'n eu gwerthfawrogi.

Dylai llawer o fusnesau bach a chanolig elwa o hyn. Yr allforwyr lleiaf sydd wedi'u taro galetaf gan gostau gwaith papur ac ardystio, ac mae llawer wedi rhoi'r gorau i fasnachu â'r UE yn gyfan gwbl am fod y cymhlethdod yn drech na'r manteision. Mae'r fargen yn creu cyfleoedd newydd i'r busnesau hynny sy'n mewnforio cynhyrchion bwyd at ddibenion prosesu neu gyfanwerthu cyn eu gwerthu ymlaen. Trwy ysgubo'r rhwystrau yma i ffwrdd, rydyn ni'n ailagor marchnad hanfodol i'r holl gwmnïau yma, gan alluogi'r rhai sy'n masnachu â'r UE i dyfu ar sail mwy o hyder a llai o gostau.

Bydd y cytundeb o fudd i fusnesau o bob maint ac yn lleddfu'r pwysau ar chwyddiant prisiau bwyd defnyddwyr. Bydd y cytundeb newydd yn arbed amser ac arian i fusnesau, ac yn agor cyfleoedd ar gyfer twf i fewnforwyr ac allforwyr mawr a bach ledled y wlad, gan helpu i roi cynnyrch Prydain yn ôl ar fyrddau ledled y byd.

Bwriedir i’r cytundeb ddod i rym yng nghanol 2027. Rydyn ni am i bob busnes yn y sector bwyd-amaeth ddechrau paratoi nawr. Mae hyn yn cynnwys y rhai nad ydyn nhw’n masnachu â’r UE ar hyn o bryd. Er bod y llinell amser yn uchelgeisiol, mae'r wobr yn werth yr ymdrech. Mae’r Llywodraeth wedi bod yn ymwneud â busnesau a chymdeithasau masnach er mwyn deall sut y bydd y cytundeb bwyd-amaeth newydd yn effeithio arnyn nhw. Gan hynny, rydyn ni’n gwybod bod ar rai busnesau amser hirach i addasu at y trefniadau newydd a byddwn ni’n gweithio gyda nhw i sicrhau cyfnod pontio llyfn.

Yn achos rhai o’r rheolau, does dim llawer o wyro oddi wrth yr UE wedi bod a bydd y newid y byddwch chi'n ei weld yn eich busnes yn fach iawn. Mewn achosion eraill, bydd gwyro wedi bod ers inni ymadael â'r UE ac efallai y bydd angen ichi wneud newidiadau. Gan ddechrau ym mis Mai, byddwn ni’n darparu canllawiau manylach i fusnesau. Rydyn ni am sicrhau bod pob busnes, beth bynnag eu maint neu eu hamgylchiadau, yn cael yr amser ar cymorth angenrheidiol i addasu a bod yn barod i fanteisio i'r eithaf o'r diwrnod cyntaf.

Rydyn ni’n parhau â'n hymrwymiad heddiw trwy lansio'r Alwad am Wybodaeth (CFI) yma i glywed am effaith y cytundeb a sut y gall y Llywodraeth helpu pawb i baratoi. Bydd y cytundeb yn effeithio ar fusnesau nad ydyn nhw’n masnachu ar hyn o bryd. Rydyn ni’n defnyddio'r Alwad am Wybodaeth yma i ddeall pa mor ymwybodol ydych chi o'r angen i wneud newidiadau, pa wybodaeth y bydd arnoch ei hangen a'r effaith ar eich busnes o ran manteision a chostau sy'n gysylltiedig â chysoni.

Yn olaf, rydyn ni’n awyddus i glywed pa gymorth allai fod yn ddefnyddiol a pha bryd, fel bod busnesau mawr a bach, p'un a ydyn nhw’n masnachu â'r UE ar hyn o bryd neu beidio, yn barod i elwa o'r diwrnod cyntaf.

## Cynulleidfa

Pob rhanddeiliad sydd â buddiant yn hyn o beth, ond yn bennaf: busnesau o bob math a maint ar draws y sectorau bwyd-amaeth, cynhyrchwyr, ffermwyr, gweithgynhyrchwyr, cyfanwerthwyr, manwerthwyr, milfeddygon, cwmnïau logisteg; sefydliadau cynrychioli busnesau (BROs); cynghorwyr proffesiynol; cyrff masnach; awdurdodau lleol ac Awdurdodau Iechyd Porthladd (PHA); porthladdoedd masnachol a gweithredwyr Safleoedd Rheolaethau'r Ffin (BCP); asiantaethau gorfodi ffiniau; sefydliadau anllywodraethol; sefydliadau'r trydydd sector.

## Hyd

Bydd yr Alwad am Wybodaeth yma yn rhedeg am 6 wythnos, gan agor ar 9 Mawrth 2026 a chau ar 23 Ebrill 2026.

# Defnyddio a rhannu'ch gwybodaeth

Bydd canfyddiadau'r Alwad am Wybodaeth yma yn cael eu cyhoeddi ar wefan y llywodraeth yn: http://www.gov.uk/defra. Bydd crynodeb hefyd yn rhestru'r sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cysylltu eraill.

Gallai Defra hefyd rannu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a dadansoddwyr allanol sy'n gweithio gyda ni o dan gontract i ddadansoddi a chrynhoi'r wybodaeth. Efallai y byddwn yn defnyddio meddalwedd deallusrwydd artiffisial i ategu'n proses ddadansoddi. Os byddwch chi'n dewis gwneud eich ymateb yn gyfrinachol yna bydd yr holl ddata sy'n cael ei ddefnyddio at ein gwaith dadansoddi'n cael ei anonymeiddio'n llwyr.

Defra yw'r rheolwr data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol rydych chi'n ei ddarparu ac mae Siarter Gwybodaeth Bersonol Defra yn rhoi manylion am eich hawliau mewn perthynas â thrin data personol.

Mae sut rydyn ni'n defnyddio'ch data personol wedi'i nodi yn yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr alwad am wybodaeth yma sydd i'w weld yma: https://www.gov.uk/government/publications/defras-consultations-and-call-for-evidence-exercises-privacy-notice

## Gwybodaeth Arall

Mae Defra wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae yna gyfle i roi adborth ar ddiwedd yr holiadur yma.

## Ymateb i'r Alwad am Wybodaeth

Ymatebwch i'r Alwad am Wybodaeth yn y ffyrdd canlynol:

- Ar-lein drwy ddefnyddio Citizen Space yn https://consult.defra.gov.uk/eudp-evidence-and-analysis/uk-eu-sps-agreement-call-for-information

- Llwyfan Citizen Space yw'r ffordd rydyn ni'n ei ffafrio o ran derbyn ymatebion. Os nad ydych chi'n gallu defnyddio Citizen Space, gallwch lawrlwytho dogfennau'r Alwad am Wybodaeth a dychwelyd eich ymateb drwy'r ebost i: SPSCFI@defra.gov.uk

Fel arall, cewch bostio'ch ymateb i:

- European Union Delivery Programme, Third Floor, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF.

## Cyfrinachedd

Os cliciwch chi ar 'Hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn isod yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir ichi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech iddi gael ei chadw'n gyfrinachol a pham. Y rheswm am hyn yw y gall ymatebion i'r Alwad am Wybodaeth yma gael eu rhyddhau i'r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â'r gyfraith gweld gwybodaeth (sef yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018. Byddai esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ar gyfer eich ymateb i gyd neu ran ohono yn ein helpu i benderfynu ar geisiadau am wybodaeth.

Os cliciwch chi ar 'Na hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn isod yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn ni'n cael rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond fyddwn ni ddim yn trefnu bod eich enw personol a'ch manylion cysylltu preifat ar gael i'r cyhoedd.

**Cwestiwn:** "Hoffech chi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

**Cydran ateb (Botymau Radio):** Gorfodol

- Hoffwn
- Na hoffwn

**Cydran ateb (Blwch testun rhydd):** "Os ateboch chi Hoffwn i'r cwestiwn yma, rhowch eich rheswm/rhesymau."

# Amdanoch chi

*[Un dewis, Gorfodol]* Rhowch eich enw neu'ch cyfenw. Os ydych chi'n cynrychioli sefydliad, gofynnir ichi roi'ch enw cyn hir.

*[TESTUN AGORED]*

*[Un dewis, Gorfodol]* Rhowch eich cyfeiriad ebost

*[TESTUN AGORED]*

*[Un dewis, Gorfodol]* Beth yw enw'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli? Os ydych chi'n ymateb mewn swyddogaeth bersonol, gadewch hwn yn wag a symudwch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

*[TESTUN AGORED]*

# Gwybodaeth Gefndir

*[Un dewis, Gorfodol]* **C1.1. Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?**

a) Rwy'n ymateb ar ran busnes [Ewch i C1.2]
b) Rwy'n ymateb ar ran sefydliad cynrychioli busnesau (BRO) ) [Ewch i C1.7]

c) Rwy'n Swyddog Llywodraeth Leol (er enghraifft Swyddog Gorfodi, Swyddog Awdurdod Iechyd Porthladd, Swyddog Safonau Masnach, Swyddog Iechyd Amgylchedd, etc) [Ewch i C1.8]
d) Rwy'n Weithredwr Safle Rheolaethau'r Ffin [Ewch i C1.8]
e) Rwy'n ymateb ar ran porthladd masnachol [Ewch i C1.5]
f) Rwy'n ymateb ar ran sefydliad anllywodraethol neu sefydliad trydydd sector [Ewch i C1.5]
g) Rwy'n ymateb ar ran corff cynghori yn y sector preifat [Ewch i C1.5]
h) Arall – rhowch y manylion [TESTUN AGORED]

*[Os C1.1 = a, Un dewis, Gorfodol]* **C1.2. Pa fath o fusnes neu sefydliad ydych chi?**

a) Cynhyrchydd sylfaenol (e.e. ffermwr)
b) Gweithgynhyrchydd
c) Cyflenwr
d) Cyfanwerthwr
e) Milfeddyg
f) Cludwr
g) Logisteg
h) Manwerthwr
i) Arall – rhowch y manylion *[TESTUN AGORED]*

*[Dewisol]* **C1.3. Ydy'ch busnes wedi cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i'r rhanbarthau daearyddol canlynol yn ystod y 12 mis diwethaf? Os felly, nodwch gyfran y refeniw o bob rhanbarth. Sylwch y bydd yr wybodaeth yma'n cael ei hanonymeiddio at ddibenion dadansoddi.**

| | Ydy | Nac ydy | Ansicr | % Refeniw |
|---|---|---|---|---|
| **Prydain Fawr (Cymru, Lloegr neu'r Alban)** | | | | |
| **Gogledd Iwerddon** | | | | |
| **Gweriniaeth Iwerddon** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dibyniaethau'r Goron** | | | | |
| **Yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon** | | | | |
| **Gweddill y Byd** | | | | |

**[I ddefnyddwyr Citizen Space, dewisol] Os 'Ydy', nodwch gyfran y refeniw o bob rhanbarth yn y blwch testun isod.**

**[Blwch testun agored]**

*[Dewisol]* **C1.4. Ydy'ch busnes wedi prynu nwyddau neu wasanaethau o'r rhanbarthau daearyddol canlynol yn ystod y 12 mis diwethaf? Os felly, nodwch gyfran y gost o bob rhanbarth.**

**Sylwch y bydd yr wybodaeth yma'n cael ei hanonymeiddio at ddibenion dadansoddi.**

| | Ydy | Nac ydy | Ansicr | % Cyfanswm y Costau |
|---|---|---|---|---|
| **Prydain Fawr (Cymru, Lloegr neu'r Alban)** | | | | |
| **Gogledd Iwerddon** | | | | |
| **Gweriniaeth Iwerddon** | | | | |
| **Dibyniaethau'r Goron** | | | | |
| **Yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon** | | | | |
| **Gweddill y Byd** | | | | |

**[I ddefnyddwyr Citizen Space, dewisol] Os 'Ydy', nodwch gyfran y gost o bob rhanbarth yn y blwch testun isod.**

**[Blwch testun].**

*[Un dewis, Gorfodol]* **C1.5. Pa faint yw eich busnes neu'ch sefydliad?**

a) Meicro (1-9 o gyflogeion) [Ewch i C18]
b) Bach (10-49 o gyflogeion) [Ewch i C18]
c) Canolig (50-249 o gyflogeion) [Ewch i C18]
d) Mawr (250+ o gyflogeion) [Ewch i C18]

*[Dewisol]* **C1.6. Beth oedd cyfanswm refeniw eich busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf? Bydd hyn yn ein helpu i ddeall graddfa'r busnesau sy'n ymateb i'r arolwg, y tu hwnt i nifer y gweithwyr neu'r rhanddeiliaid a gynrychiolir. Sylwch y bydd yr wybodaeth yma'n cael ei hanonymeiddio at ddibenion dadansoddi.**

[TESTUN AGORED – Rhif yn unig mewn GBP] [Ewch i C1.8 - CYFEIRIO]

*[Un dewis, Gorfodol]* **C1.7. Os ydych chi'n ymateb ar ran cymdeithas neu sefydliad cynrychioli busnesau, faint o aelodau ydych chi'n eu cynrychioli?**

e) 0-9
f) 10-100
g) 101-250
h) 251-1000
i) 1001-5000
j) 5001-10,000
k) Mwy na 10,000
l) Wn i ddim

*[Un dewis, Gorfodol]* **C1.8. Ble mae eich busnes wedi'i gofrestru?**

a) Lloegr
b) Yr Alban
c) Cymru
d) Gogledd Iwerddon
e) Dibyniaethau'r Goron
f) Gweriniaeth Iwerddon
g) Yr Undeb Ewropeaidd (ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon) – Rhowch y manylion[TESTUN AGORED]
h) Yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)
i) Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA)
j) Gweddill y Byd (ac eithrio AEE/EFTA) – Rhowch y manylion [TESTUN AGORED]

*[Testun agored – pennwch y cwestiynau os atebwyd g neu j]*

*[Amlddewis, Gorfodol]*

**C1.9a. Pa sector(au) bwyd-amaeth a nwyddau amaeth sy'n gymwys i chi? Dewiswch bob un sy’n gymwys.**

a) Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
b) Iechyd a Lles Anifeiliaid
c) Pysgodfeydd a Dyframaethu
d) Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod
e) Cynhyrchu bwyd anifeiliaid
f) Cyfanwerthu a Manwerthu Bwyd
g) Cyfanwerthu a Manwerthu Bwyd Anifeiliaid
h) Coedwigaeth a Phren
i) Mawn
j) Adnoddau a Gwastraff neu Adfer
k) Cludo a Storio
l) Cyflenwadau Dŵr a Charthffosiaeth
m) Arall – rhowch y manylion *[BLWCH TESTUN AGORED]*

**C1.9b Dewiswch yr holl sectorau sy'n gymwys i chi.**

- Tir âr a Garddwriaeth
- Gwasanaethau Fferm ac Ôl-gynhaeaf
- Hela neu Drapio
- Da Byw
- Ffermio Cymysg
- Gweithgareddau Milfeddygol
- Dyframaethu
- Pysgota’r Môr a Dŵr Croyw
- Diodydd
- Llaeth
- Ffrwythau neu Lysiau ac Olewau
- Grawn a Phobi
- Prosesu Cig a Physgod
- Bwydydd a Bwydydd Anifeiliaid Eraill
- Paratoadau bwyd homogenaidd a bwyd dietetig.
- Cynhyrchion bwyd eraill heb eu pennu a heb eu cynnwys mewn mannau eraill
- Stondinau neu Farchnadoedd Bwyd
- Manwerthu Anarbenigol wedi’i seilio ar Fwyd
- Cyfanwerthu Bwyd neu Ddiod neu Dybaco
- Manwerthu Bwyd a Diod Arbenigol
- Cymorth Coedwigaeth
- Torri a Thrin Coed
- Coedwigaeth
- Cynhyrchion gwyllt heblaw pren
- Echdynnu Mawn
- Casglu
- Adfer Deunyddiau

- Cyweirio
- Trin a Gwaredu
- Cludiant Awyr
- Cludo Nwyddau (Rheilffyrdd a Ffyrdd)
- Warws a Chymorth
- Trafnidiaeth Dŵr
- Carthffosiaeth
- Cyflenwadau Dŵr
- Arall – rhowch y manylion [BLWCH TESTUN AGORED]

*[Amlddewis, Dewisol]* **C1.10. Os ydych chi'n ymwneud â chyflenwi bwyd-amaeth, nwyddau amaeth neu'r ddau, pa fathau o nwyddau rydych chi'n eu gwerthu neu'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer? Dewiswch bob un sy'n gymwys.**

a) Ddim yn gymwys
b) Anifeiliaid Byw
c) Cig ac Offal Cig Bwytadwy
d) Pysgod a Chramenogion, Molysgiaid ac Infertebratau Dyfrol Eraill
e) Cynnyrch llaeth; Wyau Adar; Mêl Naturiol; Cynhyrchion bwytadwy sy'n dod o anifeiliaid, heb eu pennu a heb eu cynnwys mewn mannau eraill
f) Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol; Bwydydd Babanod Masnachol; Bwydydd at ddibenion Meddygol Arbennig; Cynhyrchion Amnewid Deiet Gyfan
g) Atchwanegiadau Bwyd a Bwydydd Cyfnerth
h) Cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, heb eu pennu a heb eu cynnwys mewn mannau eraill
i) Coed a phlanhigion byw eraill; Bylbiau, Gwreiddiau ac ati; Blodau wedi'u torri a Dail Addurnol
j) Llysiau bwytadwy a gwreiddiau a chloron penodol
k) Ffrwythau a chnau bwytadwy; Croen Ffrwythau Sitrws neu Felonau
l) Coffi, te, maté neu sbeisys
m) Grawnfwydydd
n) Cynhyrchion y Diwydiant Melino; Brag; Startsh; Inwlin; neu Glwten Gwenith
o) Hadau olew a ffrwythau olewaidd; Grawn, Hadau a Ffrwythau amrywiol; Planhigion Diwydiannol neu Feddyginiaethol; Gwellt a Phorthiant
p) Lac; Gymiau, Resinau a Suddoedd a Rhiniau llysiau eraill
q) Deunyddiau plethu llysiau; Cynhyrchion Llysiau heb eu pennu a heb eu cynnwys mewn mannau eraill
r) Brasterau ac Olewau Anifeiliaid, Llysiau neu Ficrobaidd a'u cynhyrchion hollti; Brasterau Bwytadwy wedi'u paratoi; Cwyr Anifeiliaid neu Lysiau
s) Paratoadau Cig, Pysgod neu Gramenogion, Molysgiaid neu Infertebratau Dyfrol eraill
t) Siwgrau a Melysion Siwgr
u) Coco a Pharatoadau Coco
v) Paratoadau Grawnfwydydd, Blawd, Startsh neu Laeth; Cynhyrchion Coginio Crwst
w) Paratoadau Llysiau, Ffrwythau, Cnau neu Rannau Eraill o Blanhigion
x) Paratoadau Bwytadwy Amrywiol
y) Diodydd Di-alcohol, Gwirodydd o bosibl at ddibenion unrhyw Labeli neu Arbedion Costau Safonol Marchnata.
z) Gweddillion a Gwastraffoedd o'r Diwydiannau Bwyd; bwyd Anifeiliaid wedi'i baratoi
aa) Mercwri
bb) Gwrteithiau
cc) Caseinau

dd) Plaladdwyr
ee) Crwyn amrwd (ac eithrio crwyn ffwr) a lledr
ff) Pren ac Eitemau Pren; Siarcol Pren
gg) Peiriannau amaethyddiaeth a choedwigaeth
hh)Arall – Rhowch y manylion *[TESTUN AGORED]*

# Effaith Weithredol

Nod yr adran yma yw casglu tystiolaeth ar yr heriau posibl y gall busnesau neu sefydliadau eu hwynebu o ganlyniad i gysoni SPS, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y trawsnewidiad o'r arferion cyfredol i gysoni.

**C2. I ba raddau y bydd cysoni â rheolau'r UE ar SPS yn gofyn am newidiadau yng ngweithrediadau eich busnes neu'ch sefydliad (er enghraifft, prosesau, systemau TG, labelu, pecynnu, ail-ffurfio cynhyrchion, diwygiadau contract)?**

**Cydran ateb: Graddfa Likert (Botymau Radio), Dewisol**

- Dim angen newidiadau
- Angen mân newidiadau
- Angen newidiadau cymedrol
- Angen newidiadau sylweddol
- Angen newidiadau sylweddol iawn
- Ansicr
- Ddim yn gymwys

**C3. Beth sydd angen i'ch busnes ei wneud i fod yn barod i gysoni?**

**Cydran ateb: Blwch testun amlddewis (Ticiwch bob un sy'n gymwys)**

- Newid systemau digidol a TG (er enghraifft, cynhyrchu data a rhannu data)
- Newid contractau (er enghraifft addasu/diwygio cytundebau cyflenwi)
- Cydymffurfiaeth a newidiadau yn y rheoliadau (er enghraifft, ymgysylltu â rheoleiddwyr neu brosesau cymeradwyo)
- Newid labeli a phecynwaith
- Newid gweithgynhyrchu a chynhyrchu (er enghraifft, ail-ffurfio cynhyrchion)
- Adnoddau dynol
- Ddim yn gymwys
- Arall
- Os ateboch chi 'Arall' neu os hoffech roi rhag o fanylion, defnyddiwch y blwch testun isod [Blwch testun agored].

**C4. O gofio'ch ymateb i C3, pa heriau rydych chi'n eu rhag-weld, os ydych chi'n rhag-weld heriau o gwbl?** [Cydran ateb: Testun agored].

**[Toriad tudalen]**

**C5. O'r adeg y byddwch chi'n dechrau gwneud newidiadau, beth yw'r isafswm amser arweiniol y bydd ar eich busnes neu’ch sefydliad ei angen er mwyn cydymffurfio â chysoniad SPS?**

**Gall newidiadau i amserau arweiniol gyfeirio at gontractau, effeithiau hyfforddi staff, newidiadau yn y gadwyn gyflenwi a logistaidd etc, er enghraifft.**

Cydran ateb: Botymau Radio, Dewisol

- 0-3 mis
- 4-6 mis
- 7–12 mis
- 13–24 mis
- >25 mis
- Wn i ddim
- Ddim yn gymwys

**C6. Pa fathau o newidiadau gweithredol fydd yn cymryd hiraf i’ch busnes neu’ch sefydliad baratoi ar eu cyfer?**

Cydran ateb: Blwch testun amlddewis, Dewisol

- Systemau digidol a TG
- Cydymffurfiaeth a rheoleiddio
- Labelu a phecynnu
- Newidiadau mewn contractau
- Gweithgynhyrchu a chynhyrchu
- Adnoddau dynol
- Ddim yn gymwys
- Ansicr
- Arall

Cydran ateb (Blwch testun rhydd), Gorfodol: Os ateboch chi 'Arall' i'r cwestiwn yma, rhowch y manylion yn fyr.

**C7.  Pa gymorth fyddai ei angen ar eich busnes neu’ch sefydliad i weithredu 'r newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio â chysoni â’r rheolau SPS?**

[Dewis ymateb: Blwch testun agored]

# Ymwybyddiaeth a Pharodrwydd Busnes

Rydyn ni’n anelu at gwblhau’r trafodaethau a chael trefniadau deddfwriaethol ar waith erbyn 2027 fan bellaf ac i'r trefniadau newydd ddechrau dod i rym yng nghanol 2027. Er mwyn ategu’n gwaith paratoi, cyfathrebu ac ymgysylltu, mae'n ddefnyddiol inni ddeall pa mor ymwybodol yw busnesau o'r Cytundeb SPS, ei nodau a'r cyfleoedd a'r heriau a ragwelir.

**C8. Cyn yr Alwad am Wybodaeth yma, oeddech chi wedi clywed am y cytundeb SPS?**

Cydran ateb (Botymau Radio), Dewisol:

- Oeddwn
- Nac oeddwn

**C9. Os felly, ble clywsoch chi am y cytundeb SPS am y tro cyntaf?**

Cydran ateb: Botymau Radio, Dewisol

- Cyfathrebiadau'r Llywodraeth
- Corff diwydiant
- Y cyfryngau
- Ar lafar
- Ddim yn gymwys
- Arall (rhowch y manylion isod)

  **Cydran ateb (Blwch testun rhydd),** Gorfodol: Os ateboch chi 'Arall' i'r cwestiwn yma, rhowch y manylion yn fyr.

**C10a. Ydych chi wedi mynychu unrhyw fforymau neu wedi cael unrhyw gyfathrebiadau swyddogol gan y Llywodraeth ynglŷn â'r cytundeb SPS?**

Cydran ateb: Botymau Radio, Dewisol

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gymwys

**C10b. Os ydych chi, pa mor ddefnyddiol ichi oedd y rhain?**

Cydran ateb: Botwm radio (Graddfa: Eithriadol o ddefnyddiol – Ddim yn ddefnyddiol o gwbl), Dewisol.

- Eithriadol o ddefnyddiol
- Defnyddiol iawn
- Gweddol ddefnyddiol
- Ychydig yn ddefnyddiol
- Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

**C10c. Hoffech chi gofrestru ar gyfer rhybuddion gan y llywodraeth?** Dewisol

- Hoffwn
- Na hoffwn
- Wedi cofrestru'n barod

**Rhowch gyfeiriad e-bost BLWCH TESTUN AGORED** Dewisol

**C11. O dan y fargen, bydd disgwyl i fusnesau ddilyn rheolau'r UE. Pa mor hyderus ydych chi o beth yw rheolau'r UE ar feysydd penodol sy'n gysylltiedig ag SPS a beth fyddan nhw'n ei olygu i'ch busnes neu'ch sector chi?**

Cydran ateb (graddfa Likert), Dewisol: Hyderus iawn i Dihyder iawn

- Hyderus iawn
- Hyderus
- Niwtral
- Dihyder
- Dihyder iawn
- Ddim yn gymwys

Cydran ateb (Blwch testun rhydd), Dewisol: **Os ateboch chi Dihyder neu Dihyder iawn i'r cwestiwn yma, rhowch eich rheswm/rhesymau a rhowch ragor o wybodaeth yma.**

**[Blwch testun agored]**

**C12. Oes unrhyw feysydd penodol lle mae eglurder i'ch busnes neu'ch sefydliad yn brin?**

Cydran ateb: (Blwch testun agored bach), Dewisol.

**C13a. Ydy'ch busnes wedi ystyried gwneud unrhyw baratoadau ar gyfer newid yn y dyfodol y gall fod ei angen o dan y cytundeb SPS?**

Cydran ateb: Botymau Radio, Dewisol

- Ydy
- Nac ydy
- Ansicr
- Ddim yn gymwys

**C13b. Os yw hyn yn gymwys i chi, pryd rydych chi'n bwriadu dechrau paratoi?**

Cydran ateb (Botymau Radio), Dewisol:

- Wedi dechrau paratoi eisoes
- Bwriadu dechrau o fewn y 3 mis nesaf

- Bwriadu dechrau mewn 3–6 mis
- Bwriadu dechrau mewn mwy na 6 mis
- Does dim paratoadau wedi'u bwriadu ar hyn o bryd
- Ansicr
- Ddim yn gymwys

**C14a. Sut hoffech chi gael diweddariadau pwysig gan y Llywodraeth?**

Cydran ateb: Blwch testun amlddewis, Dewisol

- Gweminarau a sesiynau dysgu
- Fforymau i'r diwydiant cyfan
- Newyddion
- Porth neu ddangosfwrdd ar-lein
- Sioeau teithiol
- Arall

  Cydran ateb (Blwch testun rhydd), Gorfodol: "Os ateboch chi 'Arall' i'r cwestiwn yma, rhowch y manylion yn fyr'.

**C14b. Pa mor aml hoffech chi gael diweddariadau a gwybodaeth gennyn ni?**

Cydran ateb: Blwch testun amlddewis, Dewisol

- Misol
- Ad hoc – dim ond adeg cerrig milltir allweddol
- Chwarterol
- Arall

  Cydran ateb (Blwch testun rhydd), Gorfodol: Os ateboch chi 'Arall' i'r cwestiwn yma, rhowch y manylion yn fyr.

**C14c. Sut hoffech chi gysylltu â ni ynglŷn â pharatoi i fod yn barod?**

Cydran ateb: Blwch testun amlddewis, Dewisol

- Ebost neu flwch ebost
- Ymgysylltu ar-lein yn rheolaidd, er enghraifft gweithgorau
- Fforwm neu borth ar-lein
- Yn bersonol, er enghraifft Sioeau teithiol
- Arall

  Cydran ateb (Blwch testun rhydd), Gorfodol: Os ateboch chi 'Arall' i'r cwestiwn yma, rhowch y manylion yn fyr.

**C15. Pa fathau penodol o gymorth cyfathrebu fyddai'n helpu'ch busnes neu'ch sefydliad gyda pharodrwydd?**

Cydran ateb: Blwch testun amlddewis, Dewisol

- Dogfennau cyfarwyddyd

- Sesiynau hyfforddi
- Cyngor ymarferol
- Llinell gymorth bwrpasol
- Fforymau diwydiant
- Ddim yn gymwys
- Arall

Cydran ateb (Blwch testun rhydd), Gorfodol: Os ateboch chi 'Arall' i'r cwestiwn yma, rhowch y manylion yn fyr.

**[Toriad tudalen]**

# Manteision a Chostau

Nod yr adran yma yw casglu rhagor o fanylion ar ble mae manteision, costau neu effeithiau ariannol cysoni â'r rheolau SPS yn codi. Mae eich mewnbwn yn ein helpu i ddeall a chynllunio i wella'r gweithredu. **Sylwch y bydd yr wybodaeth yma'n cael ei hanonymeiddio at ddibenion dadansoddi.**

I'ch atgoffa chi, rydyn ni'n disgwyl i'r trefniadau SPS newydd ddechrau dod i rym yng nghanol 2027, fel y nodwyd yn y cyhoeddiad diweddar. Dyma'r dyddiad y dylech ei ddefnyddio wrth ystyried y camau sy'n ofynnol er mwyn cysoni a'r goblygiadau cysylltiedig i'ch busnes neu'ch sefydliad. Atebwch yr holl gwestiynau ar y sail honno – bydd hyn yn ein helpu i gynllunio ar gyfer cyfnod pontio llwyddiannus.

**C16. Pa un o'r canlynol sy'n creu mantais neu gyfle i'ch busnes neu'ch sefydliad sy'n deillio o gysoni â rheolau SPS yr UE?**

Cydran ateb: Blwch testun amlddewis, Dewisol

- Cynnydd mewn allforion
- Cynnydd mewn mewnforion
- Llai o gostau mewnforio
- Llai o gostau cydymffurfio (er enghraifft, llai o wiriadau, ardystio symlach)
- Gwell mynediad i'r farchnad
- Mwy o fynediad at systemau data
- Mwy o hyblygrwydd yn y gadwyn gyflenwi
- Gwell cystadleurwydd cynnyrch
- Gwell hyder ymysg y defnyddwyr (gwell cysoni â safonau diogelwch ac ansawdd)
- Cyfleoedd ar gyfer arloesi (er enghraifft, datblygu cynnyrch newydd o dan reolau wedi'u cysoni)
- Effeithlonrwydd gweithredol
- Gwell rhagweladwyedd a sefydlogrwydd mewn rheolau masnach
- Ddim yn gymwys
- Dim un o'r uchod
- Arall
  Cydran ateb (Blwch testun rhydd), Gorfodol: "Os ateboch chi 'Arall' neu 'Dim un o'r uchod' i'r cwestiwn yma, rhowch y manylion yn fyr.

**C17. Beth yw'r amcangyfrif o’r manteision neu’r arbedion cost i'ch busnes neu’ch sefydliad sy'n deillio o gysoni â rheolau SPS yr UE?**

Rhowch amcangyfrif gan ddefnyddio'r matrics a disgrifiwch yn fyr ble mae'r manteision neu'r arbedion cost yma yn codi, er enghraifft hyfforddiant staff, ardystiadau, yn y blwch testun agored isod.

Cydran ateb: Grid / matrics, Dewisol

| | £0-10k | £11-50k | £51-200k | £201k-£1m | >£1m - £5m | >£5m-10m | >10m | Amcangyfrif (lle mae'n hysbys) | Disgrifiad o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arbedion cost untro** | | | | | | | | | |
| **Arbedion cost parhaus** | | | | | | | | | |
| **Ddim yn gymwys** | | | | | | | | | |
| **Wn i ddim** | | | | | | | | | |

**[I ddefnyddwyr Citizen Space – dewisol, blwch testun agored].**

Rhowch amcangyfrif o'r costau (lle bo'r rhain yn hysbys) a rhowch ddisgrifiad o'r costau (megis lle mae'r manteision neu'r arbedion cost yma yn codi, er enghraifft hyfforddiant staff, ardystiadau) yn y blwch testun isod.

**Cydran ateb: Testun agored, Dewisol**

**C18. Ar ôl cysoni â'r rheolau SPS, pryd rydych chi'n disgwyl gweld manteision, os ydych chi'n disgwyl gweld manteision o gwbl, i'ch busnes neu'ch sefydliad?**

Cydran ateb: Botymau Radio, Dewisol

- 0-3 mis
- 4-6 mis
- 7–12 mis
- 13–24 mis
- >25 mis
- Wn i ddim
- Dwy ddim yn disgwyl i'm busnes neu fy sefydliad weld unrhyw fanteision o gysoni â'r rheolau SPS
- Ddim yn gymwys

**C19. Oes unrhyw gostau ariannol rydych chi'n disgwyl eu hwynebu o ganlyniad i gysoni â'r rheolau SPS?**

Opsiwn ymateb: Amlddewis, Dewisol

- Costau cydymffurfio untro
- Costau gweithredol parhaus
- Costau hyfforddi staff
- Costau uwchraddio TG
- Costau ardystio
- Costau contractau
- Ddim yn gymwys
- Wn i ddim
- Arall

Cydran ateb (Blwch testun rhydd), Gorfodol: "Os ateboch chi 'Arall' i'r cwestiwn yma, rhowch y manylion yn fyr.

**C20. Os yw C19 yn gymwys i chi, nodwch y costau disgwyliedig hyd eithaf eich gallu.**

Rhowch amcangyfrif gan ddefnyddio'r matrics a disgrifiwch yn fyr ble mae'r manteision neu'r arbedion cost hyn yn codi, er enghraifft, hyfforddiant staff, ardystiadau, trefniadau contract etc, yn y blwch testun agored isod.

Cydran ateb: Grid / matrics, Dewisol

| | £0-10k | £11-50k | £51-200k | £201k-£1m | >£1m - £5m | >£5m-10m | >10m | Amcangyfrif (lle mae'n hysbys) | Disgrifiad o'r costau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau untro** | | | | | | | | | |
| **Costau parhaus** | | | | | | | | | |
| **Ddim yn gymwys** | | | | | | | | | |
| **Wn i ddim** | | | | | | | | | |

**[I ddefnyddwyr Citizen Space – dewisol, blwch testun agored].**

Rhowch amcangyfrif o'r costau disgwyliedig (lle bo'r rhain yn hysbys) a rhowch ddisgrifiad o'r costau (megis lle mae'r manteision neu'r arbedion cost yma yn codi, er enghraifft hyfforddiant staff, ardystiadau, trefniadau contract etc) yn y blwch testun isod.

**C21. Sut gallai'ch costau godi neu eich refeniw ostwng os oes yna, er enghraifft, dim amser arweiniol, amser arweiniol o 6 mis neu amser arweiniol o 12 mis?**

Cwblhewch y matrics ac yna defnyddiwch y blwch testun isod i esbonio'n fyr sut y byddai'r costau a'r gostyngiad mewn refeniw yn effeithio ar eich busnes neu'ch sefydliad, os yw'n gymwys.

Cydran ateb: Mewnbwn rhifiadol grid/matrics, Dewisol

| | Cynnydd yn y gost | Gostyngiad mewn refeniw | Wn i ddim |
|---|---|---|---|
| Dim amser arweiniol | | | |
| Amser arweiniol o 6 mis | | | |
| Amser arweiniol o 12 mis | | | |

| Ddim yn gymwys | | | |
|---|---|---|---|

[Blwch testun].

# Effeithiau ar y Gadwyn Gyflenwi ac Effeithiau Rhanbarthol

Mae'r adran yma yn ceisio casglu mewnwelediadau ar sut y gallai cysoni â’r rheolau SPS ddylanwadu ar weithrediadau'r gadwyn gyflenwi ac a allen ni weld effeithiau rhanbarth-benodol.

**C22a. Ydych chi'n rhag-weld y bydd cysoni â’r rheolau SPS yn effeithio ar weithrediadau eich cadwyn gyflenwi?**

**Gall gweithrediadau'r gadwyn gyflenwi effeithio ar newidiadau mewn contractau, diweddaru systemau a phrosesau mewnol, hyfforddiant staff etc, er enghraifft.**

Cydran ateb: Botymau Radio, Dewisol

- Ydw
- Nac ydw
- Ansicr
- Ddim yn gymwys

**C22b. Os yw hyn yn gymwys i chi, pa ran o'ch cadwyn gyflenwi rydych chi'n disgwyl iddi gael ei heffeithio?**

Cydran ateb: Blwch testun amlddewis, Dewisol

- Sicrhau deunyddiau crai
- Cludiant a logisteg
- Clirio ffiniau a gwiriadau wrth ffiniau
- Storio
- Dosbarthu i fanwerthwyr
- Cydymffurfiaeth cyflenwyr
- Newidiadau mewn contractau
- Arall

Cydran ateb (Blwch testun rhydd), Gorfodol: "Os ateboch chi 'Arall' i'r cwestiwn yma, rhowch y manylion yn fyr.

**C23a. Ydych chi'n rhag-weld y bydd cysoni â’r rheolau SPS yn cael effeithiau rhanbarth-benodol ar eich busnes neu'ch sector chi?**

Cydran ateb: Botymau Radio, Dewisol

- Ydw [Os Ydw ewch i 23b]
- Nac ydw
- Ansicr
- Ddim yn gymwys

**C23b. Os yw hyn yn gymwys i chi, pa ranbarthau rydych chi'n disgwyl iddyn nhw gael eu heffeithio fwyaf?**

Elfen ateb: Blwch testun amlddewis (Ticiwch bob un sy'n gymwys), Dewisol

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Gweriniaeth Iwerddon
- Gweddill y Byd
- Yr Undeb Ewropeaidd (ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon)
- Arall

Cydran ateb (Blwch testun rhydd), Gorfodol: "Os ateboch chi 'Arall' i'r cwestiwn yma, rhowch y manylion yn fyr.

**C24. Os yw hyn yn gymwys i chi, pa lefel o effaith rydych chi'n rhag-weld y bydd yr effeithiau rhanbarthol hyn yn ei chael ar eich busnes neu'ch sefydliad?** (Dim effaith – Effaith fawr)

Cydran ateb: Botymau Radio, Dewisol

- Dim effaith
- Mân effaith
- Effaith gymedrol
- Effaith fawr
- Ddim yn gymwys

# Adborth ar yr Arolwg Ar-lein

Diolch am gymryd eich amser i gymryd rhan yn yr arolwg ar-lein yma. Bydden ni'n ddiolchgar pe gallech roi gwybod inni sut rydych chi'n gweld y teclyn ac unrhyw faes/feysydd rydych chi'n teimlo bod angen eu gwella, trwy lenwi'n holiadur adborth.

**C25a. [I'r rhain sy'n ateb ar-lein] Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi ar ein teclyn ar-lein Citizen Space?** Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ar y teclyn, gan gynnwys awgrymiadau ar sut y gallen ni ei wella.

**Cydran ateb:** Botymau radio un dewis

- Bodlon iawn
- Bodlon
- Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
- Anfodlon
- Anfodlon iawn
- Wn i ddim

**C25b. Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych, gan gynnwys awgrymiadau ar sut y gallen ni wella.**

[Blwch testun agored]

**DIWEDD.**